Cymdeithas y Beibl

## Philipiaid

Mae'r llythyr rhyfeddol hwn, a ysgrifennwyd tra roedd Paul yn y carchar, yn datgelu gweledigaeth o fywyd yng Nghrist sy'n ystyried o ddifri y ffordd o fyw roedd Crist yn ei modelu, wedi ei gydblethu â phwysigrwydd llawenhau bob amser ac ym mhob peth. Mae'r weledigaeth o fywyd wedi ei ganolbwyntio ar Grist roedd Paul yn ei gyflwyno, yn canolbwyntio ar ddwy brif thema: Crist fel gwas ac Arglwydd (2.5-11) a Christ fel Arglwydd a Gwaredwr (3.20-21). O'r ddwy thema y llif y weledigaeth o sut dylai'r Philipiaid fyw.

### Pa mor hir wnaiff o gymryd?

**Amser darllen:** 14 munud
**Yn brin o amser?** Darllenwch yn unig 1.1-11; 2.1-11; 4.1-9

### Dosbarth

Llythyr

### Unrhyw beth anodd?

Ychydig iawn, mae'r llythyr at y Philipiaid yn un eithaf hawdd i'w ddarllen!

### Dyfyniadau i ysbrydoli

5Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. 6Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, 7ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. 8O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.
*(Philipiaid 2.5-8)*

4Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch.
*(Philipiaid 4.4)*

12Gwn sut i gymryd fy narostwng, a gwn hefyd sut i fod uwchben fy nigon. Ym mhob rhyw amgylchiadau, yr wyf wedi dysgu'r gyfrinach sut i ddygymod boed â llawnder neu newyn, â helaethrwydd neu brinder. 13Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.
*(Philipiaid 4.12-13)*

## Ynglŷn â'r Awdur

Awdur y Philipiaid yw Paul a Timotheus ac mae'n ddiamheuol yn un o lythyrau Paul.

*Beth wyddom ni amdano?*

**Paul** yn ôl pob tebyg yw'r mwyaf adnabyddus o'r holl Gristnogion cynnar. Cyn cyfarfod Crist ar y ffordd i Ddamascus, roedd yn Pharisead eithafol oedd yn ceisio cynnal purdeb Iddewiaeth. Wedi ei brofiad ar y ffordd i Ddamascus, trodd ei sêl i gyhoeddi Iesu Grist ymhlith y cenhedloedd. Daeth hyn ag ef i wrthdaro â rhai eraill o'r Cristnogion cynnar, nid lleiaf Pedr, oedd yn credu y dylai dilynwyr Iesu Grist droi at Iddewiaeth. Fe deithiodd o amgylch yr Ymerodraeth Rufeinig (er yn bennaf yn Asia Leiaf – Twrci heddiw – a Gwlad Groeg) yn cyhoeddi'r newyddion da am Iesu Grist ac yn sefydlu cymunedau o Gristnogion wrth iddo fynd. Fe wnaeth hefyd ysgrifennu nifer fawr o lythyrau, ac mae 13 ohonynt wedi eu diogelu yn y Testament Newydd. Mae'r Philipiaid yn un o'r rhain.

Ganwyd **Timotheus** yn Lystra yn Asia Leiaf. Roedd ei fam yn Iddewes a'i Dad yn Roegwr. Mae Actau 16.1-3 yn rhoi ei hanes yn cyfarfod Paul yn Lystra ac awydd Paul i'w gymryd gydag o ar ei deithiau. Roedd Paul yn aml yn anfon Timotheus i gymunedau roedd ef wedi eu sefydlu i fynd â llythyrau iddynt ac er mwyn iddo roi adroddiad i Paul am yr hyn oedd yn digwydd yno, fel yn wir y gwnaeth gyda'r Thesaloniaid (gweler 1 Thesaloniaid 3.2 a 6). Mae dau lythyr yn y Testament Newydd (I a II Timotheus) yn ôl pob sôn yn llythyrau o anogaeth gan Paul i Timotheus yn Effesus. Mae traddodiad Cristnogol yn nodi Timotheus fel Esgob cyntaf Effesus.

## Pa fath o Lyfr ydy o?

Llythyr – mae'r Philipiaid yn cynnig arweiniad ar gyfer byw Cristnogol yn canolbwyntio ar ddau ddatganiad allweddol, un am yr Iesu fel gwas ac Arglwydd (2.5-11) ac un am yr Iesu fel Arglwydd a Gwaredwr (3.20-21).

## Ynglŷn â'r cyfnod

Ysgrifennwyd y Philipiaid tra roedd Paul yn y carchar. Mae ei ddyddiad yn dibynnu ar ba garchar y credwch roedd Paul ynddo pan wnaeth ei ysgrifennu. Os oedd yn y carchar yn Effesus, byddai'r llythyr wedi'i ddyddio tua 52-54 Oed Crist; os oedd yng Nghesarea byddai'r llythyr wedi'i ddyddio tua 58-60 Oed Crist ac os oedd yn Rhufain byddai'r dyddiad tua 62-64 Oed Crist. Mae nifer o safbwyntiau ar leoliad carchar Paul. Mae llawer o ysgolheigion yn dewis Rhufain fel y lle yr ysgrifennwyd y Philipiaid ond mae rhai sy'n anghytuno yn gwneud hynny'n ffyrnig!

*Beth oedd pobl yn ei deimlo?*

Gallwn ddweud drwy ddarllen rhwng llinellau'r llyfr fod y Philipiaid yn bryderus am Paul, oedd yn y carchar, ac am Epaffroditus, oedd wedi cael ei anfon gan y Philipiaid i ymweld ag ef yn y carchar, ond oedd wedi mynd yn sâl iawn. Mae neges y Philipiaid yn canolbwyntio ar y gallu i lawenhau waeth pa mor anodd yw'r amgylchiadau.

## Sut cafodd ei strwythuro?

| | |
|---|---|
| 1.1-2 | Cyflwyniad a chyfarchiad |
| 1.3-11 | Gweddïau yn diolch ac yn eiriol dros y Philipiaid |
| 1.12-2.30 | Bywyd wedi ei ganolbwyntio ar Iesu, gwas ac Arglwydd |
| 3.1-4.9 | Bywyd wedi ei ganolbwyntio ar Iesu, Arglwydd a Gwaredwr |
| 4.10-20 | Gweddïau yn diolch ac yn eiriol dros y Philipiaid |
| 4.21-23 | Cyfarchion ffarwelio |

## Cadwch lygad am…

Sylwch ar y thema yn Philipiaid o baratoi ar gyfer dioddefaint, erledigaeth a hyd yn oed marwolaeth, a llawenhau beth bynnag.

Roedd yn amlwg fod rhai problemau yn wynebu'r gymuned yn Philipi; wrth i chi ddarllen ceisiwch weld a allwch weithio allan beth oedd rhai ohonyn nhw.

Mae Paul yn mynegi'n glir ei gariad at Timotheus, at Epaffroditus ac at y gymuned gyfan yn Philipi yn y llythyr hwn – chwiliwch am arwyddion o'i hoffter wrth i chi ddarllen.

## Beth allai hyn ei olygu i mi?

Mae Philipiaid 3.2-19 yn rhybuddio yn erbyn hunangariad. Edrychwch ar y rhybuddion mae Paul yn ei roi yno a holwch eich hun os ydych chi mewn perygl o syrthio i unrhyw un o'r trapiau hynny.

## Cwestiynau grŵp trafod

- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr roeddech chi'n arbennig o hoff ohono neu wnaeth eich ysbrydoli?
- Oedd yna unrhyw rannau o'r llyfr nad oeddech yn ei hoffi neu oedd yn eich poeni?
- Beth oeddech *chi'n* ei gredu roedd y llyfr yn ei drafod?
- Mae llawenydd a gorfoledd yn themâu sy'n ailddigwydd drwy'r llythyr. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng bod yn wirioneddol llawen a bod yn siriol ar yr wyneb ac yn annidwyll?
- Trafodwch emyn Crist o 2.5-11 – beth oedd eich barn amdano? Beth ydych chi'n ei gredu mae'n ceisio ei ddweud wrthym am Grist ac amdanom ni?
- Mae Paul yn siarad gyda'r Philipiaid am ei ddynwared ef (3.17). Pa Gristnogion ydych chi'n ceisio eu dynwared a pham?
- Wnaethoch chi ddarllen unrhyw beth yn y llyfr wnaeth eich cyffwrdd, ehangu eich ffydd neu wneud i chi feddwl yn ddyfnach am eich bywyd a sut rydych yn ei fyw?

Gallwch drydar lluniau, storïau neu gwestiynau o'ch clwb llyfrau gan ddefnyddio'r hashnod #clwblyfraurbeibl a tag @cymybeibl.

**Dod** *â'r Beibl yn* **fyw**

Cymdeithas y Beibl


© British and Foreign Bible Society 2017 Bible Society, Stonehill Green, Westlea, Swindon, SN5 7DG cymdeithasybeibl.cymru Elusen gofrestredig 232759